# Groeslon - Clynnog Fawr

## Pellter / Distance: 10.8km/6.7m

Wrth i chi adael Groeslon fe welwch wal hen stâd Glynllifon ar y dde. Y plasty sy'n sefyll yn ganolbwynt i'r stâd oedd cartref yr Arglwydd Newborough a'i deulu a fanteisiodd ar y cyfle i ennill cyfoeth mawr pan oedd y diwydiant llechi yn ei anterth. Bellach, mae rhannau helaeth o stâd Glynllifon yn gartref i fyfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor a'r gerddi hanesyddol yn rhan o Barc Gwledig gyda cherfluniau awyr agored difyr.


Wrth i chi agosáu at un o wir drefi'r chwareli, sef Penygroes mae eich llwybr yn troi oddi ar y lôn las ac yn ymdroelli trwy'r caeau tua'r arfordir. Wrth Bontllyfni mae gennych ddewis o barhau i gerdded trwy gaeau'r iseldir neu droi at y môr. O wneud hyn cewch olygfeydd gwerth chweil tua Dinas Dinlle gyda hen gaer yr Oes Haearn yn sefyll uwchben y tonnau fel pe tae'n gwarchod y bae. Os ydych yn ymweld pan fo'r llanw'n isel fe welwch nodwedd hynafol arall y fro sef Caer Arianrhod rhyw gilomedr o'r lan. Dyma gastell honedig un o gymeriadau chwedlau'r Mabinogi sydd mwy na thebyg yn bentwr o gerrig a adawyd ar ôl wrth i'r rhewlifau gilio. Wrth bentref bach Aberdesach fe drowch yn ôl at y brif lwybr sydd yn arwain at Glynnog Fawr.

On your right as you leave Groeslon, you will see the wall of the old Glynllifon estate. The mansion that stands as the focus for the estate was the home of Lord Newborough and his family who acquired great wealth during the boom days of the slate industry. Most of the old Glynllifon Estate now forms part of Meirion Dwyfor College, and the historic gardens are part of a country park, which also houses a number of interesting outdoor sculptures.

As you approach one of the true slate boom towns, Penygroes, your route turns away from the cycleway and meanders through the fields towards the coast. Near Pontllyfni you have the choice of continuing through the lowland fields or to turn towards the sea. If you do this you will get worthwhile views towards Dinas Dinlle with the Iron Age fort standing guard over the waves. If you visit when the tide is low you will see another ancient feature, Caer Arianrhod a kilometre or so from the shore. According to one of the old Welsh legends this was the castle of one of the Mabinogi characters, which in actual fact is probably a pile of stones left as the glaciers retreated. Near the small village of Aberdesach you will return to the main path, which leads towards Clynnog Fawr.



*Cigfran/Raven*




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
Hawlfraint y Goron
Mae ailgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2007
This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
Crown copyright
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2007